Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru
Wales Infected Blood Support Scheme

CANLLAWIAU AR GYFER FFURFLEN A

CAIS I YMUNO Â'R CYNLLUN TALU - CEISIADAU HEPATITIS C CRONIG CAM I NEWYDD

CANLLAWIAU AR GYFER YMGEISWYR

Mae'r ffurflen hon ar gyfer yr ymgeiswyr hynny nad ydynt erioed wedi ymuno â Chynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru, neu ag unrhyw un o gynlluniau'r DU (e.e. Cronfa Skipton) mewn perthynas â thaliadau Hepatitis C, ac a gafodd:

- Haint Hepatitis C yn sgil triniaeth gyda gwaed, cynhyrchion gwaed neu feinwe'r GIG

  Neu

- Haint Hepatitis C ar ôl i'r firws gael ei drosglwyddo iddynt o rywun arall, ac mae'r un a drosglwyddodd yr haint wedi eu heintio gan Hepatitis C yn sgil triniaeth gyda gwaed, cynhyrchion gwaed neu feinwe'r GIG

Os yw'ch amgylchiadau yn wahanol i'r hyn sydd uchod, cysylltwch â Chynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru am arweiniad.

Gan ddefnyddio'r ffurflen hon, gallwch chi wneud cais am daliadau Hepatitis C Cam I Cronig gan Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru

Mae rhagor o fanylion ar gael ar ein gwefan.

SUT I WNEUD CAIS

Dylech chi gwblhau pob rhan yn Adran 1 y ffurflen hon. Dylech chi roi'r ffurflen gyfan i weithiwr meddygol proffesiynol ar ôl hynny, a fydd yn cwblhau'r adrannau sy'n weddill. Wedyn mae'n rhaid i'r gweithiwr meddygol proffesiynol anfon y ffurflen sydd wedi ei chwblhau i Gynllun Gymorth Gwaed Heintiedig Cymru.

Yn gyffredinol, dylai'r gweithiwr meddygol proffesiynol fod y prif glinigydd sy'n eich trin. Mae'n debyg mai'r clinigydd sy'n eich trin am Hepatitis C fydd hwn, ond yn achos ymgeiswyr sydd ag anhwylderau gwaedu (megis haemoffilia), gall fod yn haematolegydd.

Os nad oes gennych chi glinigydd y gallwch chi'r rhoi'r ffurflen hon iddo, dylech chi ofyn i'ch Meddyg Teulu ei chwblhau.

Os oes gennych chi unrhyw gofnodion am sut y cawsoch chi eich heintio, rhowch gopïau i'r gweithiwr meddygol proffesiynol a fydd yn cwblhau gweddill y ffurflen.

BETH SY'N DIGWYDD NESAF

Ar ôl i'r gweithiwr meddygol proffesiynol gwblhau'r ffurflen, mae'n rhaid iddo/iddi ei hanfon, ynghyd â chopi o bob cofnod perthnasol, i Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru. A bwrw y bydd y wybodaeth a ddarparwyd yn cadarnhau'ch hawl i dderbyn taliad, cewch chi lythyr gan y Cynllun i gadarnhau hyn a bydd yn gofyn ichi ddarparu'ch manylion banc ac unrhyw brawf o'ch hunaniaeth sydd ei angen.

Dylech chi anfon y ffurflen sydd wedi ei chwblhau i:

Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru
Canolfan Ganser Felindre
Heol Felindre
Yr Eglwys Newydd
Caerdydd
CF14 2TL

CYMORTH GYDA'R FFURFLEN HON

Os bydd angen cymorth arnoch chi i gwblhau'r ffurflen hon, cysylltwch â Chynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru:.